**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)
Ein cyf/Our ref: JH/PO/651/25

Mike Hedges AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

15 Rhagfyr 2025

Annwyl Mike,

**Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)**


Diolch am Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a gyhoeddwyd ar 4 Rhagfyr ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) fel rhan o waith craffu cyfnod 1.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu a'i ystyriaeth yng nghyfnod 1.

Ochr yn ochr â'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, rwyf wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor yn ofalus.

Gweler fy ymateb yn Atodiad 1 i'r gyfres o argymhellion cyn Trafodaeth Cyfnod 1 ar yr Egwyddorion Cyffredinol.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) – Rhagfyr 2025**

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.**<br>Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r canllawiau statudol a gyhoeddir o dan adran 3, ac unrhyw ddiwygiadau iddynt yn y dyfodol, gael eu gosod gerbron y Senedd. |
| **Gwrthod**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliannau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar gynnwys y canllawiau IAP cyn eu cyhoeddi a chyhoeddi'r canllawiau IAP o fewn amserlen debyg i'r strategaeth IAP genedlaethol. |
| **Argymhelliad 2.**<br>Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried rhinweddau pennu nifer lleiaf a nifer uchaf o aelodau a ddylai eistedd ar y panel. |
| **Derbyn**<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil i ystyried rhinweddau pennu nifer lleiaf a nifer uchaf o aelodau ar gyfer y panel IAP ac i sicrhau bod unrhyw ddull yn cynnal cynhwysiant a hyblygrwydd, tra'n darparu eglurder ar gyfansoddiad y panel ar gyfer y dyfodol. |
| **Argymhelliad 3.**<br>Er eglurder, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i adran 8(1)(c) i adlewyrchu enwau llawn Ymddiriedolaethau GIG Cymru penodedig drwy gyfeirio at eu gorchmynion sefydlu cyfatebol. |
| **Derbyn**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno i'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliant i adran 8(1)(c) i adlewyrchu enwau llawn Ymddiriedolaethau GIG Cymru penodedig drwy gyfeirio at eu gorchmynion sefydlu cyfatebol, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor. |